CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyflwyno adolygiadau o asesiadau o anghenion astudio y gellir eu cyllido (SFWIN 03/2022)

Mae'r hysbysiad hwn yn disgrifio newid i'r adolygiad o asesiadau o anghenion astudio.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Mai 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 1 Mai 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwyno-adolygiadau-o-asesiadau-o-anghenion-astudio-y-gellir-eu-cyllido-sfwin-032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Adolygu asesiadau o anghenion astudio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwyno-adolygiadau-o-asesiadau-o-anghenion-astudio-y-gellir-eu-cyllido-sfwin-032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Adolygu asesiadau o anghenion astudio

O 01 Mawrth 2022 ymlaen, bydd y polisi sy'n ymwneud ag adolygu asesiadau o anghenion astudio yn newid, ac ystyrir cynnig adolygiadau y gellir eu cyllido.

Bydd y canlynol yn arwain at adolygiad o asesiad o anghenion y gellir ei gyllido hyd at gyfanswm o £300:

- Amod newydd: pan fo myfyriwr yn dangos cyflwr nas nodwyd yn ei asesiad cychwynnol o anghenion astudio.
- Seibiant astudio 2 flynedd: pan fo myfyriwr wedi cael mwy na 2 flynedd o seibiant astudio.
- 5 mlynedd o'r asesiad cychwynnol: pan nad yw'r un o'r uchod yn berthnasol, ond pan fo 5 mlynedd neu ragor wedi mynd heibio ers asesiad gwreiddiol o anghenion astudio y myfyriwr.

Ni fydd y canlynol yn arwain at adolygiad o asesiad o anghenion y gellir ei gyllido:

- Cyflwr wedi gwaethygu: pan fo argymhellion wedi cael eu gwneud o ganlyniad i gyflwr presennol y myfyriwr, rhaid i'r myfyriwr gael ei atgyfeirio yn ôl at y ganolfan asesu wreiddiol i sicrhau bod yr argymhellion presennol yn parhau'n addas i'r diben. Gellir gwneud argymhellion newydd fel sy'n briodol.
- Adolygiad ar gais y myfyriwr: gall myfyriwr ofyn am adolygiad o'i anghenion unrhyw bryd. Rhaid i'r adolygiad hwn gael ei gynnal gan y ganolfan asesu wreiddiol. Gellir gwneud argymhellion newydd fel sy'n briodol.
- Newid cwrs: pan fo myfyriwr yn newid o gwrs israddedig i gwrs ôl-raddedig seiliedig ar ymchwil.

Os na all y ganolfan asesu wreiddiol gwblhau'r adolygiad, rhaid cynghori'r myfyriwr i gysylltu â Cyllid Myfyrwyr Cymru, a fydd yn ystyried chwilio am

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwyno-adolygiadau-o-asesiadau-o-anghenion-astudio-y-gellir-eu-cyllido-sfwin-032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ganolfan asesu arall.

Yn unol â **SFWIN 07/2021**, gall myfyrwyr ofyn am adolygiad wyneb yn wyneb neu adolygiad o bell, yn dibynnu ar y math o adolygiad sydd ei angen a'r cyfyngiadau COVID-19 sydd gan Lywodraeth Cymru mewn grym ar y pryd.

Mae'r broses ar gyfer hawlio adolygiad o asesiad o anghenion astudio yn parhau'r un fath â'r broses ar gyfer hawlio asesiad cychwynnol o anghenion astudio. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau'n ymwneud ag anfonebau a thaliadau at **SFW_invoice_team@slc.co.uk**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwyno-adolygiadau-o-asesiadau-o-anghenion-astudio-y-gellir-eu-cyllido-sfwin-032022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.